

**PALOMA FAITH SY'N MENTRO I'R AWYR AGORED  
GYDA'I HALBWM RHIF 1 'THE ARCHITECT'  
YN STADIWM ZIP WORLD, BAE COLWYN**



**Mae Orchard Entertainment yn cyflwyno'r enillydd Gwobr BRIT, Paloma Faith, a'i sioe fyw anhygoel i Stadiwm Zip World, Bae Colwyn, ddydd Sadwrn 14 Gorffennaf 2018, fel rhan o'i thaith haf dros y DU. Mae tocynnau'n mynd ar werthiant cyffredinol dydd Gwener 2 Chwefror am 9am drwy [Ticketmaster.co.uk](http://Ticketmaster.co.uk); drwy fynd i Venue Cymru; neu drwy ffonio Swyddfa Docynnau Venue Cymru ar 01492 872000.**

Gyda'i halbwm Rhif 1 'The Architect' yn profi llwyddiant yn y siartiau, ac enwebiad BRIT am y Ferch Brydeinig Orau, mae Paloma Faith wedi cyhoeddi taith yr haf dros y DU, sy'n cynnwys 20 dyddiad o sioeau y mae'n rhaid i chi eu gweld.

Hyd yn hyn, mae 'The Architect' wedi treulio wyth wythnos yn y 10 Uchaf, wedi'i hybu gan y sengl bop wych 'Crybaby', 'Guilty', sy'n gân anhygoel, a'r sengl ddiweddaraf, 'Till I'm Done'. Mae'r albwm newydd eisoes wedi cael statws Aur yn y DU, ac mae Paloma yn un o ddwy artist benywaidd Brydeinig yn unig, i gael eu tri albwm cyntaf yn cyrraedd statws platinwm dwbl yn y DU!

Gan fod yr un mor gartrefol ar lwyfan ag y mae yn y stiwdio, bydd y sioeau hyn yn un o uchafbwyntiau tymor yr haf yn ddi-os.

Ei halbwm diweddaraf 'The Architect', yw ei halbwm rhif #1 cyntaf yn y DU, gan gwtogi ar deyrnasiad byr Taylor Swift. Mae'r albwm newydd – yr un cyntaf iddi ei wneud mewn mwy na thair blynedd, ac ers cael ei phlentyn cyntaf – yn cynnwys toreth o gyd-ysgrifenydd, cynhyrchwyr a chydweithredwyr adnabyddus iawn, yn cynnwys: Sia, John Legend, Rag'n'Bone Man a'r actor Samuel L. Jackson.

Mae 'The Architect' yn dilyn llwyddiant ysgubol albwm diwethaf Paloma, 'A Perfect Contradiction', a fu yn siart y 10 Albwm Uchaf am 29 wythnos, yn y 40 Uchaf am 66 wythnos, ac yn y 200 Uchaf am 100 wythnos. Ei sengl arweiniol epig o'r albwm, 'Only Love Can Hurt Like This' sydd wedi gwerthu'r nifer uchaf o gopiâu iddi hyd yn hyn, gyda dros hanner miliwn o gopiâu wedi'u gwerthu ac sydd wedi'i ffrydio 55 miliwn o weithiau ar Spotify. O ganlyniad, enillodd Paloma'r Wobr BRIT am yr Artist Unigol Benywaidd Prydeinig yn 2015.

Cyngerdd Gorffennaf 14 yw'r cyntaf yn y stadiwm â'i enw newydd, Stadiwm Zip World, a chaiff ei hyrwyddo gan y cwmni sydd wedi ennill Hyrwyddwr Rhanbarthol y Flwyddyn yn y DU ddwywaith, Orchard Entertainment, sydd wedi cyflwyno sawl seren i Fae Colwyn dros y saith mlynedd diwethaf. Meddai cyfarwyddwr Orchard, Pablo Janczur: "Rydym wedi gosod cysail ar gyfer sêr enwog iawn yn y stadiwm dros y blynyddoedd, felly rydym yn falch ein bod wedi gallu denu perfformiwr arall o'r radd flaenaf ar gyfer 2018. Paloma yw un o artistiaid mwyaf amlwg y wlad ar hyn o bryd, gan apelio at ffans eang iawn. Bydd yn sioe wych arall!"

Caiff y cyngerdd gefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Tref Bae Colwyn. Y partneriaid cyfryngau yw Heart FM.

Dywedodd y Cyng Louise Emery, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, "Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu Paloma Faith i Fae Colwyn.

"Mae digwyddiadau yn Sir Conwy wedi dangos eu bod yn hanfodol i economi'r ardal, ac mae'r cyngherddau blynyddol yn Stadiwm Zip World Parc Eirias yn enghraifft o hynny. Mae'r buddsoddiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn yr ardal wedi helpu Conwy i ddod yn un o'r lleoliadau ymwelwyr a digwyddiadau mwyaf ffyniannus yn y DU."

Bydd perfformwyr eraill ar y rhaglen yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Paloma Faith**  
**gyda Gwesteion Arbennig**  
**Dydd Sadwrn 14 Gorffennaf 2018**

**Stadiwm Zip World**

Tocynnau ar gael drwy

[www.ticketmaster.co.uk](http://www.ticketmaster.co.uk) | [www.venuecymru.co.uk](http://www.venuecymru.co.uk) | 01492 872000  
[Seetickets.com](http://Seetickets.com) | Venue Cymru (Llandudno) | Stadiwm Zipworld (Bae Colwyn)

Ar werth: 9AM dydd Gwener 2 Chwefror 2018

\*I gael mynediad at Ardal Wyllo sy'n Hygyrch, ffoniwch 01492 872000

\*Am ymholiadau lletygarwch a bocsys VIP ffoniwch 02920 100 920

**Ar y we:** <http://www.palomafaith.com>

[www.orchardentertainment.co.uk](http://www.orchardentertainment.co.uk)

Am ymholiadau'r cyfryngau, yn cynnwys tocynnau adolygu, delweddau a chyfweliadau:

Richard Samuel

E: [Richard@thinkorchard.com](mailto:Richard@thinkorchard.com)

Ff: 02920 100 888 / 07900216039